Trefniadau asesu ac adrodd statudol ar gyfer 2008

Cynradd

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Trefniadau asesu ac adrodd statudol ar gyfer 2008

Cynradd

Cynulleidfa

Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau addysg lleol, cyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn gosod y gofynion statudol ar gyfer asesu ac adrodd ar gyraeddiadau disgyblion yn 2008.

Camau i'w cymryd

Dylai athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, sicrhau bod y gofynion cyfreithiol a geir yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu o fewn y dyddiadau a nodir.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494

Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Seilir y trefniadau asesu ar Y Gorchymyn Trefniadau Asesu Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) ar gyfer Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (Cyfnod Allweddol 1) 2002, Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru), Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgyblion) (Cymru) 2004, yn unol â'r diwygiadau; a'r Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgyblion) (Cymru) 2004.

Mae'r casglu data cenedlaethol a'r trefniadau asesu yn seiliedig ar Reoliadau Addysg (Gwybodaeth Perfformiad Ysgol) (Cymru) 2004.

Cyf: AC/SM/0837 Ionawr
ISBN: 978 0 7504 4479 8 A-EAC-02-01-042/ND
© Hawlfraint y Goron 2008

Cynnwys

Rhagarweiniad 3

Gofynion cyffredinol 5

Asesiad athrawon 6

Adrodd 9

Casglu data cenedlaethol 18

Atodiad A
Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon: Cyfnod Allweddol 1 20

Atodiad B
Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon: Cyfnod Allweddol 2 23

Atodiad C
Datgymhwyso ac addasu 26

Atodiad D
Fformat awgrymedig ar gyfer cyflwyno gwybodaeth gymharol: Cyfnod Allweddol 1 31

Atodiad E
Fformat awgrymedig ar gyfer cyflwyno gwybodaeth gymharol: Cyfnod Allweddol 2 32

Atodiad F
Rhifau ffôn a chyfeiriadau cyswllt defnyddiol 34

Dyddiadau allweddol 2008	
Erbyn 28 Ebrill	Ysgolion yn derbyn canllawiau ar drefniadau casglu data cenedlaethol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru
13 Mai	Y dyddiad penodol ar y gofrestr
Erbyn 10 Mehefin	Ysgolion yn pennu'n derfynol lefelau asesiad athrawon ar gyfer pob pwnc
Erbyn 20 Mehefin	Canlyniadau asesiad athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol i'w llwytho i fyny i system DEWi (neu erbyn dyddiad cynharach a nodir gan yr AALl) ac ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru
Erbyn diwedd tymor yr haf	Ysgolion yn adrodd i rieni

Rhagarweiniad

Yn y llyfryn hwn ceir gwybodaeth bwysig ynglŷn â threfniadau asesu ac adrodd statudol yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2. Mae'r testun o dan bedair prif adran fel a ganlyn:

- Gofynion cyffredinol
- Asesiadau athrawon
- Adrodd
- Casglu data cenedlaethol.

Mae'n bwysig bod copi o'r llyfryn hwn gan holl athrawon Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6, a phenaethiaid ysgolion Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 a fydd yn ymwneud â'r trefniadau asesu diwedd cyfnod allweddol. Anfonwyd digon o gopïau i ysgolion ar gyfer y pennaeth, y cydgysylltydd asesu, y cydgysylltydd anghenion addysgol ychwanegol, ac athrawon disgyblion Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6. Yn ogystal, dylai holl athrawon Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 fod yn ymwybodol o'r llyfryn hwn, gan ei fod yn cynnwys y gofynion ar gyfer adrodd i rieni disgyblion ym Mlynyddoedd 1–6. Gellir cael mwy o gopïau o'r llyfryn hwn yn rhad ac am ddim oddi wrth yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14 ar 029 2037 5427 neu gellir ei lawrlwytho o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Bydd ysgolion sydd â disgyblion ar ddiwedd cynllun peilot y Cyfnod Sylfaen ac sydd felly wedi'u heithrio o'r cwricwlwm cenedlaethol yn cael llyfryn ar wahân yn nes ymlaen sy'n amlinellu'r gofynion asesu ac adrodd.

Mae'r llyfryn hwn yn disodli holl fersiynau blaenorol llyfrynnau *Trefniadau Asesu ac Adrodd Statudol*. Taflwch (ac ailgylchwch os yn bosibl) fersiynau papur blaenorol y llyfryn hwn gan eu bod nhw'n hen.

Datblygiadau newydd

Trefniadau clwstwr

O'r flwyddyn ysgol 2008/09, bydd yn ofynnol i ysgolion cynradd ac uwchradd gael trefniadau effeithiol ar gyfer cymedroli grwpiau clwstwr a fydd yn cefnogi ac yn cryfhau asesiadau athrawon a chysylltiadau rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3. Bwriedir i'r cysylltiadau hyn wella'r trefniadau presennol ar gyfer cyswllt rhwng athrawon a throsglwyddo gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion, datblygu lefel well o gytundeb ynghylch barn asesiad athrawon rhwng athrawon cynradd ac uwchradd, a chynyddu ffydd yn nibynadwyedd data sy'n ymwneud â chyrhaeddiad disgyblion unigol.

Asesiad athrawon
Bydd canllawiau wedi'u diweddaru ar gysondeb asesiadau athrawon, gan gynnwys astudiaethau achos, *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*, yn cael eu hanfon i bob ysgol gan Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn nhymor yr hydref 2007 i gynorthwyo ysgolion wrth iddynt gynllunio ac adolygu'r trefniadau presennol. Bydd hyn yn seiliedig ar arferion da cyfredol, gyda'r pwyslais ar hylawdra.

Asesu Cymraeg ail iaith
Bydd asesiad athrawon diwedd Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Cymraeg ail iaith yn ofyniad statudol o'r flwyddyn ysgol 2009/10.
O haf 2010, bydd yn ofynnol i ysgolion adrodd i rieni am ganlyniadau lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6.
Ni fydd y newid hwn yn cynnwys gofyniad mewn perthynas â chasglu data cenedlaethol ysgolion.

Yn 2008, bydd APADGOS yn rhoi deunyddiau enghreifftio newydd i ysgolion i'w cynorthwyo wrth iddynt baratoi ar gyfer addysgu'r cwricwlwm diwygiedig. Bydd yr arweiniad hwn yn cynnwys enghreifftio ar gyfer Cymraeg ail iaith.

Gofynion cyffredinol

Dyletswyddau penaethiaid[1]

Mae'n ddyletswydd ar benaethiaid ysgolion a gynhelir i sicrhau y gweithredir y cwricwlwm cenedlaethol yn eu hysgolion, gan gynnwys y trefniadau asesu ac adrodd statudol.

Dylai penaethiaid sicrhau bod eu hysgolion yn cydymffurfio'n llawn â'r trefniadau statudol ar gyfer asesu disgyblion[2] ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 1 a 2, fel y'u disgrifir yn y llyfryn hwn ac mewn unrhyw ganllawiau pellach. Mae hyn trwy asesiad athrawon yn unig.

Rhaid i benaethiaid:

- benderfynu pa ddisgyblion y dylid eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 (gweler isod)
- sicrhau, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2, fod lefelau asesiad athrawon yn cael eu cofnodi ar gyfer y targedau cyrhaeddiad ym mhob pwnc craidd, a bod y lefelau pwnc cyffredinol a seiliwyd ar asesiadau athrawon o dargedau cyrhaeddiad yn cael eu cyfrifo a'u cofnodi ar gyfer pob disgybl
- cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer casglu data cenedlaethol ac adrodd i rieni[3]
- darparu adroddiadau ysgrifenedig i rieni am gynnydd eu plentyn, a chyfleoedd i drafod, o leiaf unwaith y flwyddyn.

Swyddogaeth y corff llywodraethu

Mae'n ddyletswydd cyffredinol ar y corff llywodraethu i sicrhau y cwblheir yr asesiadau athrawon statudol yn unol â'r trefniadau a amlinellir yn y llyfryn hwn.

Swyddogaeth yr awdurdod addysg lleol (AALl)

Cyfrifoldeb yr AALl yw sicrhau bod pob un o'i ysgolion a gynhelir yn deall ac yn dilyn y gofynion statudol.

Gall fod angen i gynrychiolwyr yr AALl gynghori ysgolion ynglŷn â hyfforddiant a chyngor cyffredinol ar bob agwedd ar asesu.

[1] Trwy gydol y llyfryn hwn, lle cyfeirir at y pennaeth, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol sicrhau bod dyletswyddau'r pennaeth yn cael eu cyflawni gan y cynrychiolydd a enwebwyd ganddynt os yw'r pennaeth yn absennol dros dro neu'n barhaol.

[2] Trwy gydol y llyfryn hwn, lle cyfeirir at yr holl ddisgyblion, mae hyn yn cyfeirio at y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael eu hasesu, ar wahân i'r rhai sydd wedi eu datgymhwyso rhag y gofynion statudol.

[3] Trwy gydol y llyfryn hwn, lle cyfeirir at y termau 'rhiant' neu 'rhieni', mae hyn hefyd yn cynnwys eraill â chyfrifoldeb fel rhieni.

Asesiad athrawon

Disgyblion i'w hasesu

Rhaid i bob un o'r disgyblion sydd yn eu blwyddyn olaf yng Nghyfnodau Allweddol 1 a 2 yn y flwyddyn ysgol 2007/08 gael eu hasesu drwy asesiad athrawon yn y pynciau craidd. Mae pob ysgol yn gyfrifol am adrodd canlyniadau'r holl ddisgyblion sydd ar eu cofrestr ar yr ail ddydd Mawrth ym Mai, sef y 'dyddiad penodol ar y gofrestr'. **Yn 2008, 13 Mai fydd y dyddiad hwnnw.** Caiff disgyblion sy'n symud ymlaen i raglenni astudio'r cyfnod allweddol nesaf yn y flwyddyn ysgol nesaf eu hystyried ym mlwyddyn olaf eu cyfnod allweddol.

Mewn perthynas â systemau rheoli gwybodaeth (MIS) ysgolion bydd y disgyblion hyn yn cael eu cofnodi fel rhai sy'n cael eu haddysgu yng ngrŵp blwyddyn 2 neu flwyddyn 6 y cwricwlwm cenedlaethol; hynny, yn hytrach, na dyddiad geni'r disgybl, sy'n nodi a ydynt yn gymwys am asesiad ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 1 a 2. Dylid cymryd gofal i sicrhau y caiff yr wybodaeth hon ei chofnodi'n gywir ym MIS yr ysgol. Yn hynny o beth, er y bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn 7 neu'n 11 oed, gallai rhai fod yn hŷn neu'n iau a gallai rhai gael eu haddysgu mewn dosbarth lle mae mwyafrif y disgyblion o oedran gwahanol. Rhaid i ddisgyblion gael eu hasesu'n statudol, hynny yw, rhaid iddynt gael asesiad athrawon diwedd cyfnod allweddol unwaith yn unig.

Pynciau y mae asesiadau'n ofynnol ar eu cyfer

Mae'n ofynnol i athrawon wneud eu hasesiadau athrawon statudol ar ddiwedd y cyfnod allweddol, ar gyfer pob disgybl sy'n gymwys, yn y pynciau canlynol.

Cyfnod Allweddol 1
Cymraeg neu Saesneg
Mathemateg
Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg (os yw'r disgybl yn dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg)
Saesneg
Mathemateg
Gwyddoniaeth

Er mwyn diwallu gofynion statudol, rhaid i asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol gynnwys:

- lefel ar gyfer **pob targed cyrhaeddiad**
- **lefel pwnc cyffredinol**, a geir trwy gyfrifo cyfartaledd lefelau'r targedau cyrhaeddiad yn unol â'r pwysiadau a geir yn Atodiad A (CA1) neu Atodiad B (CA2).

Codau asesiad athrawon dilys

Mae'r codau canlynol yn ddilys ar gyfer disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2:

- Cwricwlwm Cenedlaethol Lefelau 1–8
- E – Perfformiad Eithriadol
- D – Datgymhwyswyd o dan Adrannau 364–367 o Ddeddf Addysg 1996
- W – Gweithio tuag at Lefel 1
- N – Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwyso.

Canllawiau ynglŷn ag asesu

Mae'r disgrifiadau lefel yng Ngorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol yn disgrifio'r math o berfformiad a'r ystod o berfformiad y dylai disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol eu harddangos fel rheol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Y nod yw ffurfio barn gynhwysfawr sydd:

- wedi ei seilio ar wybodaeth am berfformiad y disgybl ar draws ystod o gyd-destunau
- yn ystyried gwahanol gryfderau a gwendidau perfformiad y disgybl hwnnw
- yn cael ei gwirio yn erbyn y disgrifiadau lefel cyfagos i sicrhau mai'r lefel a ddyfernir yw'r un sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad.

Er mwyn ffurfio barn gynhwysfawr ynglŷn â pherfformiad disgybl ym mhob targed cyrhaeddiad, dylai athrawon ddefnyddio'r dystiolaeth hyd yma a sicrhau bod hyn yn cynnwys y canlynol:

- gwaith ymarferol a llafar
- gwaith ysgrifenedig a wneir yn y dosbarth
- gwaith cartref
- profion ysgol.

Rhaid cyfrifo lefelau asesiad athrawon ar sail y dystiolaeth sydd ar gael hyd yma ac nid ar sail unrhyw ragamcaniadau o berfformiad disgyblion yn y dyfodol.

Caiff athrawon eu hannog i sicrhau bod asesiadau athrawon wedi eu seilio'n ddiogel ar ddealltwriaeth ar y cyd o'r safonau sydd wedi'u gosod yn y disgrifiadau lefel. Dylai'r ddealltwriaeth ar y cyd hon gael ei chyflawni trwy safoni a chymedroli mewnol ffynonellau cyfeirio cytûn a dynnwyd o waith disgyblion, ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cyrhaeddiad yn yr ysgol.

Amseru

Dyddiadau allweddol yn 2008 ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2	
Erbyn 28 Ebrill	Ysgolion yn derbyn canllawiau ar drefniadau casglu data cenedlaethol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru
13 Mai	Dyddiad penodol ar y gofrestr
Erbyn 10 Mehefin	Cwblhau asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol yn y pynciau craidd
Erbyn 20 Mehefin	Canlyniadau asesiad athrawon diwedd cyfnod allweddol i'w llwytho i fyny i system DEWi (neu erbyn dyddiad cynharach a nodir gan yr AALl) ac ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru
Erbyn 11 Gorffennaf	Canlyniadau asesiad athrawon wedi'u dilysu gan ysgolion (cyfnod dilysu dwy wythnos)

Cofnodi a chadw tystiolaeth

Mater i ysgolion benderfynu arno yw'r math o gofnodion, a'r ystod o gofnodion, a ddefnyddir i helpu'r asesiad athrawon. Nid yw'r cwricwlwm cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol cael trefniadau cymhleth i gofnodi asesiadau a chadw tystiolaeth, ac nid oes eu hangen ychwaith i fodloni arolygiadau Estyn.

Ceir arweiniad ar gadw cofnodion effeithiol ynghyd â nifer o enghreifftiau o ffurfiau cofnodi yn y llyfryn *Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu: Cofnodi Cyfnodau Allweddol 1–3*, ACCAC, 2000. Ailddosbarthwyd hwn i ysgolion yn 2005.

Wrth gadw cofnodion, dylai ysgolion ystyried goblygiadau Deddf Diogelu Data 1998.

Deunyddiau cymorth

Ar gyfer Cyfnod Allweddol 1, darparwyd profion dewisol mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg gan ACCAC ar gyfer ysgolion yn 2002. Anfonwyd deunyddiau ar gyfer gwyddoniaeth yn 2001.

Ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, darparwyd deunyddiau asesu dewisol i gefnogi asesiadau athrawon ar gyfer 2007 a'r tu hwnt i ysgolion yn nhymor yr hydref 2006.

Adrodd

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ynghylch adrodd am gynnydd y disgyblion ym Mlynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 ar gyfer y flwyddyn ysgol 2007/08. Ceir arweiniad ar adrodd effeithiol ynghyd â nifer o enghreifftiau o ffurfiau adrodd yn y llyfryn *Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu: Cyflwyno Adroddiadau Cyfnodau Allweddol 1–3*, ACCAC, 2000, a ddosbarthwyd i ysgolion yng ngwanwyn 2001 ac a ailddosbarthwyd yn 2005.

Adrodd i rieni

Mae'n ddyletswydd ar y pennaeth i sicrhau yr anfonir adroddiad ysgrifenedig i rieni pob disgybl o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ysgol i'w cadw ganddynt. Dylai ysgolion drin pob rhiant yn gyfartal oni bai fod gorchymyn llys yn cyfyngu cyfrifoldeb yr unigolyn fel rhiant. Felly, dylai ysgolion wneud pob ymdrech i adrodd i bawb sy'n 'rhiant'[1] er efallai nad dyma'r unigolyn y bydd yr ysgol yn cysylltu ag ef/hi o ddydd i ddydd.

Pwerau penaethiaid

Mae gan benaethiaid ryddid i wneud y canlynol:

- cynnwys mewn adroddiad unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â chynnydd y disgybl, y tu hwnt i'r lleiafswm sy'n ofynnol. Mae'n arbennig o bwysig darparu gwybodaeth gyd-destunol mewn adroddiadau am ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Yn aml bydd yn briodol ychwanegu at y lleiafswm sylfaenol o wybodaeth trwy roi adroddiad mwy manwl ynglŷn â chynnydd y disgybl mewn perthynas â'r cwricwlwm y mae'n ei ddilyn
- penderfynu ar ffurf adroddiadau i rieni, ac adroddiadau i ysgolion y bydd disgyblion yn symud iddynt
- trefnu i adroddiad gael ei gyfieithu, neu ei gyfleu ar lafar, i ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg, lle bo hynny'n ymddangos yn angenrheidiol
- penderfynu pryd i gyflwyno adroddiadau i rieni, cyhyd ag y bo'r lleiafswm o wybodaeth sy'n ofynnol yn cael ei hanfon at rieni erbyn diwedd tymor yr haf
- peidio â chynnwys yn yr adroddiad i rieni wybodaeth a allai fod yn gyfrinachol, fod yn niweidiol i'r disgybl neu'r rhieni, neu gynnwys datgelu gwybodaeth am ddisgybl arall.

[1] Am arweiniad pellach gweler Cylchlythyr Cyfarwyddyd y Cynulliad 12/2007 'Rhieni a Chyfrifoldeb Rhiant'

Mae gan benaethiaid bwerau penodol i benderfynu peidio â chynnwys rhai mathau o wybodaeth gyfrinachol mewn adroddiadau i rieni. Mae hyn yn ymwneud â gwybodaeth:

- a roddwyd gan unrhyw un heblaw:
  – person a gyflogir gan yr awdurdod sy'n cynnal yr ysgol
  – athro neu athrawes neu weithiwr cyflogedig arall yn yr ysgol (yn cynnwys seicolegydd addysg a gyflogir dan gytundeb am wasanaethau)
  – swyddog lles addysg
  – y sawl sy'n gofyn am gael yr wybodaeth
- sy'n enwi person (heblaw'r disgybl y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef/hi, neu un o'r rhai a restrir uchod) fel ffynhonnell yr wybodaeth neu fel y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef/hi
- sydd, ym marn y pennaeth, yn debygol o beri niwed difrifol i'r disgybl dan sylw neu i unrhyw berson arall
- sy'n berthnasol i achos o gam-drin plentyn neu risg o hynny
- a fyddai'n datgelu gwybodaeth am ddisgybl heblaw'r disgybl sydd o dan sylw yn yr adroddiad.

Adroddiadau yn ystod Blynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6

Ar gyfer pob disgybl ym Mlynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6, dylai'r adroddiad gynnwys, o leiaf, yr wybodaeth ganlynol:

- manylion byr am gynnydd disgybl yn y pynciau a'r gweithgareddau a astudir fel rhan o gwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol
- manylion am gynnydd cyffredinol y disgybl
- crynodeb o gofnod presenoldeb y disgybl
- manylion am y trefniadau i rieni drafod yr adroddiad gydag athrawon yn yr ysgol.

Ar gyfer disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, mae'n ofynnol i benaethiaid baratoi adroddiadau ar gyfer adolygiad blynyddol o ddatganiad y disgybl. Mae hyn yn ofynnol yn ôl Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) 1994 (SI 1994/1047), ac mae'n unol â chanllawiau a gynigir yn y Cod Ymarfer am Adnabod ac Asesu Anghenion Arbennig. Os dymuna'r ysgolion, gellir defnyddio'r adroddiadau hyn fel adroddiad blynyddol i rieni ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd gan y disgyblion. Os felly, rhaid i'r penaethiaid sicrhau bod yr adroddiadau a gynhyrchir fel rhan o'r adolygiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn y rheoliadau ar wybodaeth am ddisgyblion yn yr adran hon.

Gofynion adrodd ychwanegol ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6

Rhaid i adroddiadau am ddisgyblion a asesir yn ôl y trefniadau statudol ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6 gael eu hanfon allan cyn diwedd tymor yr haf. Yn ogystal â'r wybodaeth a restrir uchod ac a fynnir mewn adroddiadau ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 1, 2, 3, 4 neu 5, mae'n rhaid i adroddiadau ar gyfer disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6 gynnwys y canlynol:

Canlyniadau unigol

- Lefel cyrhaeddiad y disgybl fel y'i pennwyd gan asesiadau athrawon ym mhob pwnc craidd perthnasol. Er mwyn cael y lefel pwnc, dylid ystyried bob un o'r targedau cyrhaeddiad.
- Sylwadau cryno yn nodi'r hyn y mae'r asesiad yn ei ddangos am gynnydd y disgybl ym mhob pwnc, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau penodol.
- Datganiad os eithriwyd disgybl rhag unrhyw darged cyrhaeddiad o dan Adrannau 364 a 365 Deddf Addysg 1996.

Gwybodaeth gymharol yr ysgol

Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth **mewn perthynas â'r canran o ddisgyblion yn yr ysgol ar bob lefel cyrhaeddiad ym mhob un o'r targedau cyrhaeddiad craidd perthnasol a phynciau cyffredinol.**

Dylai gwybodaeth gymharol yr ysgol gynnwys y canlynol yn ogystal, **wedi'u mynegi fel canran o'r disgyblion sy'n gymwys i'w hasesu:**

- disgyblion a eithrir o dan Adrannau 364 neu 365 Deddf Addysg 1996
- y rhai sy'n gweithio tuag at Lefel 1
- y rhai na ddyfernir lefel iddynt am resymau heblaw datgymhwyso.

Gwybodaeth gymharol genedlaethol

Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am ganran **genedlaethol** y disgybl ar bob lefel cyrhaeddiad yn y flwyddyn flaenorol ym mhob un o'r pynciau craidd perthnasol.

Dylai gwybodaeth gymharol genedlaethol hefyd gynnwys y canlynol, **wedi'u mynegi fel canran o'r disgyblion sy'n gymwys i'w hasesu:**

- disgyblion a eithrir o dan Adrannau 364 neu 365 Deddf Addysg 1996
- y rhai sy'n gweithio tuag at Lefel 1 fel yr asesir gan asesiadau athrawon
- y rhai na ddyfernir lefel iddynt am resymau heblaw datgymhwyso.

Caiff canlyniadau cenedlaethol 2007 ar gyfer Cymru eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ei gwefan www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod dadansoddiadau llawnach ar gyfer pob ardal awdurdod lleol ar gael i ysgolion yn nhymor yr hydref; ceir fformat awgrymedig ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon yn Atodiad D.

Ceir ar dudalennau 13 ac 14 restri gwirio ar gyfer canlyniadau Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 a fydd ar gael i'w hadrodd i rieni.

Cyfnod Allweddol 1

	Canlyniadau disgyblion unigol 2008 asesiad athrawon	Data cymharol ysgol 2008 asesiad athrawon	Data cymharol cenedlaethol 2007 asesiad athrawon
Cymraeg neu Saesneg	✓	✓	✓
Llafaredd (TC1)	✓		
Darllen (TC2)	✓	✓	✓
Ysgrifennu (TC3)	✓	✓	✓
Mathemateg	✓	✓	✓
Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (TC1)	✓		
Rhif ac Algebra (TC2)	✓		
Siâp, Gofod a Mesurau (TC3)	✓		
Gwyddoniaeth	✓	✓	✓
Ymholiad Gwyddonol (TC1)	✓		
Prosesau Bywyd a Phethau Byw (TC2)	✓		
Defnyddiau a'u Priodweddau (TC3)	✓		
Prosesau Ffisegol (TC4)	✓		

Cyfnod Allweddol 2

	Canlyniadau disgyblion unigol 2008 asesiad athrawon	Data cymharol ysgol 2008 asesiad athrawon	Data cymharol cenedlaethol 2007 asesiad athrawon
Saesneg	✓	✓	✓
Llafaredd (TC1)	✓	✓	✓
Darllen (TC2)	✓	✓	✓
Ysgrifennu (TC3)	✓	✓	✓
Cymraeg	✓	✓	✓
Llafaredd (TC1)	✓	✓	✓
Darllen (TC2)	✓	✓	✓
Ysgrifennu (TC3)	✓	✓	✓
Mathemateg	✓	✓	✓
Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (TC1)	✓	✓	✓
Rhif ac Algebra (TC2)	✓	✓	✓
Siâp, Gofod a Mesurau (TC3)	✓	✓	✓
Trin Data (TC4)	✓	✓	✓
Gwyddoniaeth	✓	✓	✓
Ymholiad Gwyddonol (TC1)	✓	✓	✓
Prosesau Bywyd a Phethau Byw (TC2)	✓	✓	✓
Defnyddiau a'u Priodweddau (TC3)	✓	✓	✓
Prosesau Ffisegol (TC4)	✓	✓	✓

Gwybodaeth y mae'n rhaid iddi fod ar gael ar gais rhieni

Mae'n rhaid i wybodaeth am dargedau cyrhaeddiad nad yw'n cael ei darparu'n statudol gael ei darparu, os yw rhiant yn gofyn amdani, o fewn 15 diwrnod ysgol o'r cais.

Adroddiadau i ysgolion sy'n derbyn

Pan fydd disgybl yn symud o ysgol a gynhelir i ysgol newydd, gan gynnwys ysgol annibynnol, a phan fydd disgybl yn symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, dylid cyflwyno adroddiad am gyraeddiadau'r disgybl, os yw'n rhesymol ymarferol, i bennaeth yr ysgol sy'n derbyn. Mae'n ofynnol gwneud hyn o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl tynnu enw'r disgybl oddi ar gofrestr ei hen ysgol, neu o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn cais am yr adroddiad gan yr ysgol newydd.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- canlyniadau asesiad athrawon statudol y disgybl yn y pynciau craidd fesul pwnc a tharged cyrhaeddiad (os cynhyrchir gwybodaeth o'r fath) yn y cyfnodau allweddol blaenorol (os yw'r wybodaeth honno ar gael), a'r flwyddyn ysgol pan wnaed yr asesiadau
- asesiadau diweddaraf yr athrawon o gynnydd y disgybl yn erbyn y targedau cyrhaeddiad ym mhob un o'r pynciau craidd perthnasol ers yr asesiad statudol diwethaf neu ers i'r disgybl gyrraedd yn yr ysgol sy'n cyflwyno'r adroddiad, pa un bynnag yw'r diweddaraf. Gall hyn ddangos pa lefelau ar raddfa'r cwricwlwm cenedlaethol y mae'r disgybl yn gweithio arnynt neu ddangos yn fwy cyffredinol gynnydd y disgybl o fewn pob targed cyrhaeddiad. Lle bo hynny'n briodol, dylai nodi a yw cyraeddiadau'r disgybl wedi datblygu ers yr asesiad statudol diwethaf.

Nid oes rheidrwydd i ddarparu adroddiad o'r fath i ysgol newydd y disgybl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw'r disgybl wedi'i gofrestru yn yr ysgol ers llai na phedair wythnos; fodd bynnag, mewn achos o'r fath, dylai'r pennaeth wneud pob ymdrech i roi i'r ysgol newydd unrhyw adroddiadau a drosglwyddwyd o ysgol neu ysgolion blaenorol y disgybl
- os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r pennaeth ddod o hyd i fanylion am ysgol newydd y disgybl; fodd bynnag, dylai'r pennaeth o leiaf ffonio rhieni'r disgybl ac, os yw eu cyfeiriad yn hysbys, ysgrifennu atynt i holi ymhle y bydd y disgybl yn parhau a'i addysg.

Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3

Dylai athrawon mewn ysgolion Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 gytuno ar yr amser mwyaf priodol i drosglwyddo gwybodaeth asesu. Ar gyfer asesiadau athrawon, dylai hyn ddigwydd cyn diwedd y tymor cyn trosglwyddo.

Mae'n debyg bod cysylltiadau rhwng athrawon Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, a gosod targedau rhwng disgyblion ac athrawon ar ddechrau Blwyddyn 7, o gymorth i sefydlu parhad rhwng y ddau gyfnod allweddol.

Pontio

O ganlyniad i ddeddfwriaeth yng Nghymru yn unig yn Neddf Addysg 2002, bydd angen i ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo lunio ar y cyd gynlluniau i hwyluso trosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Bydd cynlluniau pontio yn eu lle erbyn Medi 2007 i gefnogi'r disgyblion Blwyddyn 6 hynny sy'n symud i'r ysgol uwchradd ym Medi 2008.

I gyd-fynd â'r Rheoliadau a ddaeth i rym ar 1 Medi 2008, cyhoeddwyd canllawiau i ysgolion yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 30/2006. Dosbarthwyd *Canllawiau ar Baratoi Cynlluniau Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3* i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, AALlau a sefydliadau eraill â diddordeb (gweler www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau).

Fel rhan o'r rhaglen Anelu at Ragoriaeth ar gyfer codi safonau yng Nghyfnod Allweddol 3, cynhyrchodd ACCAC lyfryn yn dwyn y teitl *Pontio'r Bwlch* sy'n rhoi arweiniad i ysgolion cynradd ac uwchradd ynglŷn â datblygu a defnyddio unedau pontio er mwyn cefnogi trosglwyddo effeithiol gan ddisgyblion o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 a sut i gael gwell parhad mewn dysgu ac addysgu ar adeg trosglwyddo. Dosbarthwyd y llyfryn hwn i ysgolion ym mis Tachwedd 2004.

O'r flwyddyn ysgol 2008/09, bydd yn ofynnol i ysgolion cynradd ac uwchradd gael trefniadau effeithiol ar gyfer cymedroli grwpiau clwstwr a fydd yn cefnogi ac yn cryfhau asesiadau athrawon a chysylltiadau rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Bwriedir i'r cysylltiadau hyn wella'r trefniadau presennol ar gyfer cyswllt rhwng athrawon a throsglwyddo gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion, datblygu lefel well o gytundeb ynghylch safonau rhwng athrawon cynradd ac uwchradd, a chynyddu ffydd yn nibynadwyedd data sy'n ymwneud â chyrhaeddiad disgyblion unigol. Bydd canllawiau wedi'u diweddaru ar gysondeb mewn asesiadau athrawon, gan gynnwys astudiaethau achos yn cael eu darparu i bob ysgol gan APADGOS yn

nhymor yr hydref 2007 i gynorthwyo ysgolion wrth iddynt gynllunio ac adolygu'r trefniadau presennol.

Mae cyhoeddiadau eraill sy'n ymwneud â phontio yn cynnwys:
Codi Safonau: Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, BBC Cymru/Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004 (pecyn fideo, ar gael gan BBC Cymru)

Symud Ymlaen . . . Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004 (ar gael gan Estyn)

Symud Ymlaen . . . Gwella Dysgu, Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004 (cyhoeddiad ar wefan Estyn)

Newidiadau mewn Addysgu a Dysgu a hyrwyddir gan y Rhaglen Anelu at Ragoriaeth 2005-06, yn cynnwys pennod ar bontio sy'n disgrifio rhai arferion cyfredol (cyhoeddiad ar wefan Estyn 2006)

Arolwg o'r Gymraeg fel Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r Cyfnod Pontio, Estyn, 2004

Arolwg o gyfraniad y Rhaglen Anelu at Ragoriaeth at godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 3, sydd hefyd yn cynnwys adran ar bontio, Estyn, 2006.

System drosglwyddo gyffredin

Yn ôl y rheoliadau sy'n ymdrin â'r System Drosglwyddo Gyffredin (Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004) mae gofyn i bennaeth ysgol a gynhelir y mae disgybl yn trosglwyddo ohoni anfon at ysgol newydd y disgybl set safonol o wybodaeth am y disgybl, ar fformat electronig i'w rhoi yn uniongyrchol i mewn i system rheoli gwybodaeth yr ysgol newydd.

Cyhoeddwyd canllawiau ar y gofynion trosglwyddo cyffredin i ysgolion ym Mai 2006, Cylchlythyr Rhif 18/2006 'Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin'.

Ceir gwybodaeth a chanllawiau pellach ynglŷn â'r system drosglwyddo gyffredin ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Casglu data cenedlaethol

Mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu canlyniadau diwedd Cyfnod Allweddol 1 a/neu Gyfnod Allweddol 2 ar gyfer y pynciau craidd ar ffurf ffeiliau electronig lefel disgyblion. Mae angen adroddiadau gan bob ysgol gynradd a gynhelir a bob ysgol arbennig a chan Unedau cyfeirio disgyblion. Lle nad oes gan ysgol ddisgyblion ar y gofrestr sy'n gymwys i'w hasesu, rhaid anfon e-bost i gadarnhau hyn at NDC@cymru.gsi.gov.uk

Bydd ysgolion yn defnyddio eu systemau rheoli gwybodaeth (MIS) cyfredol i gofnodi ac adrodd eu gwybodaeth asesiad athrawon. Bydd y feddalwedd yn defnyddio data lefel disgybl cyfredol a bydd hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ac yn gwella cywirdeb. Dylid cofnodi data ar lefel targed cyrhaeddiad. Yna bydd MIS yn cyfrifo'n awtomatig lefelau'r pynciau a'r lefelau dangosydd pwnc craidd.

Bydd meddalwedd ysgolion yn cynhyrchu adroddiadau fesul disgybl ac adroddiadau lefel ysgol gyfanredol. Bydd ysgolion yn llwytho ffeiliau gorffenedig i fyny i wefan DEWi i'w dilysu a'u trosglwyddo'n ddiogel i'r AALl a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gall AALlau gael mynediad at ddata casglu data cenedlaethol yn uniongyrchol gan DEWi; ni ddylai fod angen gofyn i unrhyw ysgol gynhyrchu adroddiadau data lluosog at ddefnydd yr AALl. Bydd canllawiau llawn ar y prosesau gweinyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio MIS i ddychwelyd data casglu data cenedlaethol yn 2008 yn cael eu darparu ar wahân yn nhymor y gwanwyn.

Disgyblion o systemau addysg y tu allan i Gymru a Lloegr (NEWBES)

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, bydd manylion NEWBE yn cael eu casglu fel rhan o'r broses casglu data cenedlaethol. Rhaid cofnodi asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnod allweddol ar gyfer yr holl ddisgyblion sydd wedi cyrraedd o systemau addysg y tu allan i Gymru a Lloegr o fewn y ddwy flynedd flaenorol. Rhaid adrodd ar yr asesiadau hyn i rieni a'u cynnwys yn ffeil casglu data cenedlaethol electronig yr ysgolion.

Trwy nodi cofnod y disgybl yn gywir ym MIS yr ysgol i ddangos bod gan y disgybl statws NEWBE, a thrwy gyflwyno dyddiad cyrraedd dilys, caiff disgyblion NEWBE eu hanwybyddu wrth gyfrifo ystadegau cyfanredol ysgolion ac AALl. Mae disgyblion sydd wedi cyrraedd ar 1 Medi 2006 neu ar ôl hynny yn gymwys ar gyfer eu nodi fel disgyblion NEWBE.

Dyddiad penodol ar y gofrestr

O 2006, bu pob ysgol yn gyfrifol am adrodd canlyniadau'r holl ddisgyblion sydd ar eu cofrestr ar yr ail ddydd Mawrth ym Mai, sef y 'dyddiad penodol ar y gofrestr'. Yn 2008, 13 Mai fydd y dyddiad hwnnw.

Cyfrifo'r Dangosydd Pwnc Craidd

Cyfnod Allweddol 1

Bernir bod disgybl wedi bodloni'r Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) pan fydd asesiad athrawon yn nodi bod disgybl wedi cyrraedd Lefel 2 neu uwch ym mhob un o'r pynciau perthnasol.

Ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 1 y pynciau perthnasol yw Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Gan mai Cymraeg neu Saesneg yw'r pwnc perthnasol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1, rhaid asesu disgyblion mewn un iaith yn unig. Yr iaith y cânt eu hasesu ynddi fydd yr iaith a ddefnyddir yn yr ysgol neu'r dosbarth i addysgu; hwn yw'r pwnc 'perthnasol' a'r un a gaiff ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r DPC.

Er y bydd rhai ysgolion yn dewis asesu disgyblion yn y ddwy iaith, y pwnc perthnasol yw'r hyn y dylid ei gyfrif tuag at y DPC.

Bydd MIS ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth am astudiaethau Cymraeg disgyblion yn awtomatig yn unol â'r hyn a adroddwyd yn PLASC i adnabod y pwnc perthnasol a chyfrifo'r DPC ar gyfer pob disgybl.

Cyfnod Allweddol 2

Bernir bod disgybl wedi bodloni'r DPC pan fydd asesiad athrawon yn nodi bod disgybl wedi cyrraedd Lefel 4 neu uwch ym mhob un o'r pynciau perthnasol.

Ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 y pynciau perthnasol yw Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Gellir asesu disgyblion naill ai yn Saesneg neu yn Saesneg ac yn Gymraeg iaith gyntaf a gellir defnyddio'r naill neu'r llall i gyfrifo'r DPC.

Os yw asesiadau'n cael eu cyflwyno ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg, bydd MIS ysgolion yn defnyddio'r uchaf o'r ddau yn awtomatig wrth gyfrifo'r DPC.

Atodiad A

Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon: Cyfnod Allweddol 1

Wrth gyfrifo'r lefel pwnc:

- caiff targedau cyrhaeddiad **Saesneg** (Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu) eu pwysoli'n gyfartal
- caiff targedau cyrhaeddiad **Cymraeg** eu pwysoli fel a ganlyn:
  – Llafaredd (Cy1) 2
  – Darllen (Cy2) 1
  – Ysgrifennu (Cy3) 1
- caiff targedau cyrhaeddiad **mathemateg** eu pwysoli fel a ganlyn:
  – Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1) 1
  – Rhif ac Algebra (Ma2) 2
  – Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3) 1
- caiff targedau cyrhaeddiad gwyddoniaeth eu pwysoli fel a ganlyn:
  – Ymholiad Gwyddonol (Gw1) 3
  – Prosesau Bywyd a Phethau Byw (Gw2) 1
  – Defnyddiau a'u Priodweddau (Gw3) 1
  – Prosesau Ffisegol (Gw4) 1

Dylid talgrynnu haneri i fyny i'r rhif cyfan nesaf. Dylai systemau rheoli gwybodaeth ysgolion wneud y gwaith cyfrifo ar ôl i ddata'r targed cyrhaeddiad gael eu cofnodi.

Enghraifft ar gyfer Cymraeg

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (7 ÷ 4 = 1.75). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 2.

Targed cyrhaeddiad	Lefel (a)	Pwysiad (b)	Lefel x Pwysiad (c)
Llafaredd (Cy1)	2	2	4
Darllen (Cy2)	1	1	1
Ysgrifennu (Cy3)	2	1	2
Cyfanswm		**4**	**7**

Enghraifft ar gyfer mathemateg
I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (10 ÷ 4 = 2.5). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 3.

Targed cyrhaeddiad	Lefel (a)	Pwysiad (b)	Lefel x Pwysiad (c)
Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1)	2	1	2
Rhif ac Algebra (Ma2)	3	2	6
Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3)	2	1	2
Cyfanswm		**4**	**10**

Enghraifft ar gyfer gwyddoniaeth
I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (4 ÷ 3 = 1.3). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 1.

Targed cyrhaeddiad	Lefel (a)	Pwysiad (b)	Lefel x Pwysiad (c)
Ymholiad Gwyddonol (Gw1)	D	-	0
Prosesau Bywyd a Phethau Byw (Gw2)	W	1	0
Defnyddiau a'u Priodweddau (Gw3)	2	1	2
Prosesau Ffisegol (Gw4)	2	1	2
Cyfanswm		**3**	**4**

Enghraifft ar gyfer mathemateg

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (8 ÷ 3 = 2.67). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 3.

Targed cyrhaeddiad	Lefel (a)	Pwysiad (b)	Lefel x Pwysiad (c)
Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1)	N	-	0
Rhif ac Algebra (Ma2)	3	2	6
Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3)	2	1	2
Cyfanswm		**3**	**8**

Atodiad B

Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon: Cyfnod Allweddol 2

Wrth gyfrifo'r lefel pwnc:

- caiff targedau cyrhaeddiad **Saesneg** (Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu) eu pwysoli'n gyfartal
- caiff targedau cyrhaeddiad **Cymraeg** eu pwysoli fel a ganlyn:
  – Llafaredd (Cy1) 4
  – Darllen (Cy2) 3
  – Ysgrifennu (Cy3) 3
- caiff targedau cyrhaeddiad **mathemateg** eu pwysoli fel a ganlyn:
  – Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1) 1
  – Rhif ac Algebra (Ma2) 2
  – Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3) 1
  – Trin Data (Ma4) 1
- caiff targedau cyrhaeddiad **gwyddoniaeth** eu pwysoli fel a ganlyn:
  – Ymholiad Gwyddonol (Gw1) 2
  – Prosesau Bywyd a Phethau Byw (Gw2) 1
  – Defnyddiau a'u Priodweddau (Gw3) 1
  – Prosesau Ffisegol (Gw4) 1

Dylid talgrynnu haneri i fyny i'r rhif cyfan nesaf. Dylai systemau rheoli gwybodaeth ysgolion wneud y gwaith cyfrifo ar ôl i ddata'r targed cyrhaeddiad gael eu cofnodi.

Enghraifft ar gyfer Cymraeg

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (47 ÷ 10 = 4.7). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 5.

Targed cyrhaeddiad	Lefel (a)	Pwysiad (b)	Lefel x Pwysiad (c)
Llafaredd (Cy1)	5	4	20
Darllen (Cy2)	5	3	15
Ysgrifennu (Cy3)	4	3	12
Cyfanswm		**10**	**47**

Enghraifft ar gyfer mathemateg
I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (18 ÷ 5 = 3.6). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 4.

Targed cyrhaeddiad	Lefel (a)	Pwysiad (b)	Lefel x Pwysiad (c)
Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1)	4	1	4
Rhif ac Algebra (Ma2)	3	2	6
Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3)	4	1	4
Trin Data (Ma4)	4	1	4
Cyfanswm		**5**	**18**

Enghraifft ar gyfer gwyddoniaeth
I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (4 ÷ 3 = 1.3). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 1.

Targed cyrhaeddiad	Lefel (a)	Pwysiad (b)	Lefel x Pwysiad (c)
Ymholiad Gwyddonol (Gw1)	D	-	0
Prosesau Bywyd a Phethau Byw (Gw2)	W	1	0
Defnyddiau a'u Priodweddau (Gw3)	2	1	2
Prosesau Ffisegol (Gw4)	2	1	2
Cyfanswm		**3**	**4**

Enghraifft ar gyfer mathemateg

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (8 ÷ 3 = 2.67). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 3.

Targed cyrhaeddiad	Lefel (a)	Pwysiad (b)	Lefel x Pwysiad (c)
Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg (Ma1)	N	-	0
Rhif ac Algebra (Ma2)	3	2	6
Siâp, Gofod a Mesurau (Ma3)	2	1	2
Cyfanswm		**3**	**8**

Atodiad C

Datgymhwyso ac addasu

Anaml iawn y bydd angen datgymhwyso disgybl rhag asesiad athrawon y cwricwlwm cenedlaethol. Os datgymhwyswyd un targed cyrhaeddiad, gellir dal i gyfrifo lefel pwnc cyffredinol gan ddefnyddio gweddill y targedau cyrhaeddiad a'u pwysiadau fel y nodir yn Atodiad A (Cyfnod Allweddol 1) ac Atodiad B (Cyfnod Allweddol 2). Ni ellir dyfarnu lefel pwnc os datgymhwyswyd mwy nag un targed cyrhaeddiad. Yn yr achos hwn, adroddir datgymhwyswyd ar gyfer y lefel pwnc cyffredinol.

Lle bo angen datgymhwyso disgybl o asesiad athrawon gellir gwneud hyn drwy:

- **Adran 364** Deddf Addysg 1996, sy'n pennu y gall **datganiad disgybl o Anghenion Addysgol Arbennig** addasu neu ddatgymhwyso rhywfaint neu'r cyfan o'r cwricwlwm cenedlaethol
- **Adrannau 364–367** Deddf Addysg 1996, sy'n pennu y gall rhywfaint neu'r cyfan o'r cwricwlwm cenedlaethol gael ei **ddatgymhwyso dros dro** ar gyfer disgybl os yw'n amhriodol, am y tro, cynnig y cwricwlwm cenedlaethol fel y mae'n gymwys iddo/iddi ar hyn o bryd.

Datgymhwyso dros dro

Ni fwriedir i ddatgymwysiadau dros dro o dan **Adrannau 364–367** (a elwir hefyd yn eithriadau dros dro) ddarparu eithriadau tymor hir rhag darpariaethau'r cwricwlwm cenedlaethol, ac ni fydd eu hangen, mae'n debyg, ond o dan amgylchiadau anghyffredin. Disgwylir i benaethiaid ddefnyddio'u pwerau cyfarwyddo yn sensitif ac yn gynnil. Dylai pob disgybl gael cyfle i elwa o'r cwricwlwm cenedlaethol, y mae ei fframwaith yn darparu cwmpas eang i athrawon ymdrin â holl ystod anghenion y disgyblion unigol heb fod angen gwneud trefniadau eithriadol. Ni ddylid ystyried datgymhwysiad dros dro ond pan fydd hi'n amlwg bod amgylchiadau neu ymddygiad presennol y disgybl yn golygu na all gymryd rhan yn llawn yn y cwricwlwm cenedlaethol a'i drefniadau asesu.

Mae dau fath o ddatgymhwysiad dros dro y gall penaethiaid eu gwneud o dan Adrannau 364–367.

1. **Cyfarwyddyd cyffredinol** ar gyfer disgyblion sydd heb ddatganiad, neu nad oes angen datganiad ar eu cyfer, ond y mae angen, er hynny, eu datgymhwyso dros dro. Isod rhoddir enghreifftiau lle y gallai fod angen cyfarwyddiadau cyffredinol i

ganiatáu eithriadau rhag agweddau ar y cwricwlwm cenedlaethol. Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr. Ni ddylid tybio ychwaith y bydd angen eithriadau dros dro ym mhob achos megis y rhai a restrir yma. O dan amgylchiadau prin yn unig y dylid ystyried eithrio dros dro.

- Disgyblion sy'n cyrraedd o gyfundrefn addysg sydd mor wahanol fel bod arnynt angen cyfnod i ymaddasu i'r cwricwlwm cenedlaethol.
- Disgyblion sydd wedi treulio cyfnodau yn yr ysbyty, sydd wedi'u haddysgu gartref neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol ac y mae angen amser arnynt i ymaddasu.
- Disgyblion sydd, dros dro, â phroblemau emosiynol difrifol (oherwydd argyfwng teuluol efallai) ac y mae angen gwneud trefniadau arbennig ar eu cyfer.

2. **Cyfarwyddyd arbennig** ar gyfer disgyblion sydd, ym marn y pennaeth, ag angen tymor hir am eithriadau rhag y cwricwlwm cenedlaethol, neu addasiadau iddo, ac na ellir eu gwneud ond drwy gyfrwng datganiad o anghenion addysgol arbennig, a bod angen eithriad dros dro tra bo'r broses asesu neu ailasesu yn mynd rhagddi. Os bydd pennaeth o'r farn fod gan ddisgybl, neu ei bod yn debygol bod gan ddisgybl, anghenion addysgol arbennig sy'n golygu y byddai gofyn i awdurdod addysg lleol benderfynu ar y ddarpariaeth addysgol arbennig y dylid ei gwneud ar ei gyfer, boed ar y cychwyn neu ar ôl adolygiad o ddatganiad presennol, fe allai fod yn briodol rhoi cyfarwyddyd arbennig.

Mae'r gofynion hyn hefyd yn gymwys i gyfarwyddiadau a ddechreuodd fel cyfarwyddiadau cyffredinol ond sydd wedi'u hamrywio at ddibenion asesiad AAA.

Gweithdrefnau ar gyfer rhoi cyfarwyddiadau

Cyn rhoi cyfarwyddyd, rhaid i'r pennaeth wneud y canlynol:

- trafod amgylchiadau ac anghenion y disgybl gyda'i rieni a'i athrawon
- ymgynghori â seicolegwyr addysg, swyddogion meddygol neu staff arbenigol eraill
- yn achos cyfarwyddyd arbennig, ymgynghori â'r AALl.

Rhesymau dros y cyfarwyddyd

Rhaid i'r cyfarwyddyd:

- esbonio'r camau a gymerir
- nodi a yw'n gyfarwyddyd cyffredinol neu arbennig
- datgan pam y mae angen gwneud trefniadau eithriadol.

Yn ogystal, yn achos **cyfarwyddyd cyffredinol:**

- rhaid iddo gynnwys y rhesymau sy'n esbonio pam y mae amgylchiadau presennol y disgybl yn ei gwneud hi'n amhriodol parhau i gynnig darpariaethau'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n gymwys i'r disgybl ar hyn o bryd
- rhaid iddo nodi sut mae'r amgylchiadau hyn yn debygol o gael eu newid dros gyfnod y cyfarwyddyd
- rhaid iddo nodi sut y galluogir y disgybl i ymaddasu i'r gofynion hynny yn y cwricwlwm cenedlaethol sydd wedi'u haddasu neu eu codi yn ystod y cyfarwyddyd

yn achos **cyfarwyddyd arbennig**:

- rhaid iddo fod wedi bod yn destun ymgynghori â'r AALl
- rhaid iddo gynnwys y rhesymau sy'n esbonio pam, ym marn y pennaeth, y mae gan y disgybl, neu y mae'n debyg bod gan y disgybl anghenion addysgol arbennig sy'n gofyn am asesu neu newid datganiad presennol
- dylai gyfeirio at unrhyw weithdrefnau y mae'r ysgol wedi'u defnyddio i ddadansoddi a monitro anghenion ac anawsterau'r disgybl ac unrhyw gamau a gymerwyd i roi sylw iddynt, gan gynnwys unrhyw gymorth arbennig a gynigiwyd.

Nid oes angen i benaethiaid ddisgrifio, ar y cychwyn, gynlluniau i ailgymhwyso'r cwricwlwm cenedlaethol at y disgybl pe na bai datganiad yn cael ei wneud neu ei newid.

Hyd cyfnod y cyfarwyddyd

Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd bennu pryd y bydd y trefniadau eithriadol yn dechrau ac yn gorffen, neu'r ffactorau a fydd yn penderfynu pryd y byddant yn gorffen. Ni chaiff cyfarwyddyd cychwynnol barhau mwy na chwe mis calendr.

Bydd unrhyw gyfarwyddyd yn dod i ben os tynnir enw disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol. Mater i bennaeth unrhyw ysgol y bydd disgybl o'r fath yn trosglwyddo iddi yw barnu pa anghenion sydd gan y disgybl a gwneud darpariaeth yn unol â hynny.

Hyd cyfarwyddyd cyffredinol

Gall pennaeth bennu hyd byrrach yn nhermau misoedd calendr neu ryw ddigwyddiad arall os yw'n digwydd cyn y terfyn o chwe mis.

Hyd cyfarwyddyd arbennig

Bydd yn dod i ben yn awtomatig cyn gynted ag y caiff y datganiad, os yw'n briodol, ei wneud neu ei newid, a dylid ei ddisodli gan y ddarpariaeth addysgol arbennig a bennir yn y datganiad hwnnw.

Gwybodaeth sydd i'w darparu ynghylch cyfarwyddiadau

Rhaid darparu'r wybodaeth ganlynol ynghylch cyfarwyddiadau:

- Rhaid i benaethiaid roi cyfarwyddyd ysgrifenedig sy'n nodi a yw'r cyfarwyddyd yn un cyffredinol neu arbennig. Dylai'r llythyr nodi natur y ddarpariaeth wahanol a wneir ar gyfer y disgybl a pha mor hir y bydd y datgymhwysiad yn parhau, hyd at chwe mis ar y mwyaf.
- Rhaid cadw copi ohono yn yr ysgol gyda chofnodion addysgol y disgybl.
- Cyn gynted ag y rhoddir cyfarwyddyd, a chyn pen tri diwrnod ysgol beth bynnag, rhaid anfon copïau ohono at gadeirydd y corff llywodraethu, i'r awdurdod addysg lleol ac at o leiaf un o rieni'r disgybl fel y'u cofrestrwyd yn yr ysgol.
- Rhaid anfon copïau ohono drwy'r post dosbarth cyntaf a rhaid anfon copïau rhieni i'w cyfeiriad cofrestredig.
- Rhaid hysbysu'r rhieni ynghylch eu hawl i apelio.
- Os oes gan benaethiaid reswm dros gredu y gall rhiant ei chael hi'n anodd deall y cyfarwyddyd, rhaid iddynt gynnig cymorth priodol, er enghraifft drwy ddarparu dehongliad neu gyfieithiad o'r dogfennau, neu drefnu i'w trafod gyda rhieni.

Y drefn ar gyfer ceisiadau ac apeliadau gan rieni

Gall rhieni ofyn i bennaeth roi cyfarwyddyd sy'n eithrio'u plentyn dros dro rhag y cwricwlwm cenedlaethol. Wrth ystyried ceisiadau posibl am gyfarwyddyd, mae angen dilyn y drefn ganlynol:

- Dylai penaethiaid drafod y ceisiadau gyda'r rhieni a cheisio datrys unrhyw anhawster heb orfod troi at weithdrefnau ffurfiol. Os bydd hynny'n methu, caiff y rhieni wneud cais ffurfiol naill ai ar bapur neu ar lafar i'r pennaeth. Rhaid iddynt roi rhesymau drosto.
- Rhaid i benaethiaid ymateb i geisiadau cyn pen pythefnos. Os derbyniant y cais, rhaid iddynt anfon copïau o'r cyfarwyddyd at y rhieni, y corff llywodraethu ac, os yw'n briodol, yr AALl.
- Os bydd y pennaeth yn penderfynu peidio a chaniatáu'r cais, rhaid iddo neu iddi ysgrifennu at y rhieni gan roi'r rhesymau dros ei wrthod a manylion am hawl y rhieni i apelio. Rhaid anfon copïau o'r llythyr i'r corff llywodraethu ac, yn achos ysgol a gynhelir, i'r awdurdod.

- Os yw rhiant yn ei chael hi'n anodd deall y llythyr, oherwydd anhawster wrth ddarllen neu anhawster wrth ddeall yr iaith, dylai'r pennaeth wneud trefniadau priodol i'w esbonio neu drefnu cyfieithu'r llythyr lle bo angen.
- Os na fydd y pennaeth yn ymateb cyn pen pythefnos, mae gan y rhiant yr hawl i apelio i'r corff llywodraethu.
- Disgwylir i gyrff llywodraethu wrando ar apeliadau mor gyflym â phosibl; caniatáu cyflwyno sylwadau gan rieni, ynghyd â chyfaill iddynt os dymunant, yn ogystal â'r pennaeth; a chaniatáu i staff arbenigol fynychu'r cyfarfod os bydd angen.
- Gall y corff llywodraethu naill ai gadarnhau gweithred y pennaeth neu ei gyfarwyddo i gymryd unrhyw gamau eraill sydd, yn eu barn nhw, yn briodol. Rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu rhieni a'r pennaeth yn ysgrifenedig o'u penderfyniad.
- Os bydd rhieni yn parhau i fod yn anfodlon, gallant gyflwyno cwyn. Yn achos ysgolion a gynhelir, dylid gwneud hynny o dan drefniadau y cytunwyd arnynt gan yr AALl.

Atodiad D

Fformat awgrymedig ar gyfer cyflwyno gwybodaeth gymharol – Cyfnod Allweddol 1

Crynodeb o asesiadau cwricwlwm cenedlaethol disgyblion yn yr ysgol (2008) ac yn genedlaethol (2007) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 fel canran o'r rhai sy'n gymwys i'w hasesu.

	D	W	N	1	2	3	4	Cyf	2+
Lefel pwnc Cymraeg neu Saesneg									
Ysgol									
Cenedlaethol									
Darllen									
Ysgol									
Cenedlaethol									
Ysgrifennu									
Ysgol									
Cenedlaethol									
Lefel pwnc mathemateg									
Ysgol									
Cenedlaethol									
Lefel pwnc gwyddoniaeth									
Ysgol									
Cenedlaethol									

D → disgyblion sydd wedi eu datgymhwyso o dan Adrannau 364/365 Deddf Addysg 1996
W → disgyblion sy'n gweithio tuag at Lefel 1
N → disgyblion na chafodd lefel am resymau heblaw datgymhwyso

(Gweler hefyd *Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu: Cyflwyno Adroddiadau am Gyfnodau Allweddol 1–3*, ACCAC, 2000)

Atodiad E

Fformat awgrymedig ar gyfer cyflwyno gwybodaeth gymharol – Cyfnod Allweddol 2

Crynodeb o asesiadau cwricwlwm cenedlaethol disgyblion yn yr ysgol (2008) ac yn genedlaethol (2007) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 fel canran o'r rhai sy'n gymwys i'w hasesu.

	N	D	W	1	2	3	4	5	6	Cyf	4+
Lefel pwnc Cymraeg											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Llafaredd											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Darllen											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Ysgrifennu											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Lefel pwnc Saesneg											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Llafaredd											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Darllen											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Ysgrifennu											
Ysgol											
Cenedlaethol											

	N	D	W	1	2	3	4	5	6	Cyf	4+
Lefel pwnc mathemateg											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Rhif ac Algebra											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Siâp, Gofod a Mesurau											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Trin Data											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Lefel pwnc gwyddoniaeth											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Ymholiad Gwyddonol											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Prosesau Bywyd a Phethau Byw											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Defnyddiau a'u Priodweddau											
Ysgol											
Cenedlaethol											
Prosesau Ffisegol											
Ysgol											
Cenedlaethol											

D → disgyblion sydd wedi eu datgymhwyso o dan Adrannau 364/365 Deddf Addysg 1996
W → disgyblion sy'n gweithio tuag at Lefel 1
N → disgyblion na chafodd lefel am resymau heblaw datgymhwyso

(Gweler hefyd *Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu: Cyflwyno Adroddiadau am Gyfnodau Allweddol 1–3*, ACCAC, 2000)

Atodiad F

Rhifau ffôn a chyfeiriadau cyswllt defnyddiol

APADGOS Llinell gymorth Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14	0800 083 6003 Rhadffôn	Ymholiadau ynglŷn â materion asesu ac adrodd
APADGOS Tîm Cyhoeddiadau Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14	029 2037 5427	Er mwyn archebu cyhoeddiadau
APADGOS Yr Is-adran Perfformiad a Gwella 2	029 2080 1368	Ymholiadau ynglŷn â'r gofynion statudol a nawdd Ysgolion Gwell ar gyfer ysgolion a gynhelir
APADGOS Yr Is-adran Gwybodaeth a Gwella	029 2082 6014 NDC@cymru.gsi.gov.uk	Ymholiadau ynglŷn â'r broses casglu data cenedlaethol
Llywodraeth Cynulliad Cymru Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol	029 2082 5968	Ymholiadau ynglŷn â data a dilysu